# Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Ddinbych

## Cefnogi Dyfodol Digidol

**2026–2031**

# CYNNWYS


RHAGAIR .......... 3
EIN GWELEDIGAETH .......... 4
STRATEGAETH DDIGIDOL I GYMRU .......... 5
EGWYDDORION DIGIDOL ALLWEDDOL I'R CYNGOR .......... 6
AMCANION STRATEGOL .......... 7
AMCAN 2 – CYNGOR DIGIDOL .......... 9
AMCAN 3 – ISADEILEDD DIGIDOL .......... 10
AMCAN 4 – DATA, DEALLTWRIAETH A PHERFFORMIAD .......... 11
AMCAN 5 – DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL AC AWTOMEIDDIO .......... 12
AMCAN 6 – DIOGELWCH DIGIDOL AC YMDDIRIEDAETH .......... 13
AMCAN 7 – CYNALIADWYEDD DIGIDOL .......... 14
AMCAN 8 – CYNHWYSIANT DIGIDOL .......... 15
AMCAN 9 – CYFLAWNI A LLYWODRAETHU .......... 16
Gwybodaeth Ategol .......... 17

# RHAGAIR



Mae technoleg ddigidol bellach yn rhan o'n bywydau bob dydd. Rydym ni'n ei defnyddio i gadw cysylltiad â theulu a ffrindiau, i reoli arian, i gael gwasanaethau a dod o hyd i wybodaeth yn gyflym ac yn gyfleus. Mae hi felly'n iawn bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i addasu a moderneiddio ein ffordd o ddarparu ein gwasanaethau.

Mae Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Ddinbych yn datgan ein huchelgais ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n egluro sut byddwn ni'n defnyddio offerynnau digidol, gwell gwybodaeth a ffyrdd modern o weithio i wella gwasanaethau i drigolion, cefnogi ein gweithlu a'n cynghorwyr a sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian.

Nid strategaeth am gyflwyno systemau newydd yn unig yw hon. Ei nod yw gwneud gwasanaethau'n haws eu defnyddio, yn fwy eglur i'w deall a'u gwneud yn well am ymateb i anghenion ein cymunedau. Mae hefyd yn ceisio lleihau dyblygu diangen, gan ddefnyddio data i wneud gwell penderfyniadau a sicrhau bod y sgiliau a'r hyder gan ein staff i ddarparu gwasanaethau o safon.

Yn bwysig iawn, mae ein dull yn cydnabod bod rhaid i drawsnewid digidol fod yn gynhwysol i bawb. Nid oes gan bawb yr un dechnoleg ar gael na'r un lefel o hyder i'w defnyddio. Rydym ni'n dal i ymrwymo i sicrhau y bydd ffyrdd eraill o gael cymorth yn parhau i fod ar gael lle bo angen.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod gwybodaeth a sicrhau seiberddiogelwch cadarn. Wrth i ni fabwysiadu technolegau newydd, gan gynnwys awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial, byddwn yn gwneud hynny'n gyfrifol, yn foesegol ac yn ddiogel.

Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i adeiladu Cyngor mwy gwydn, effeithlon a chysylltiedig – un sy'n gallu ymateb yn well i anghenion sy'n newid wrth gefnogi ein blaenoriaethau ehangach ar gyfer yr hinsawdd a natur, lles cymunedol a chyfrifoldeb ariannol.

Rwy'n falch o gefnogi'r strategaeth hon ac rwy'n edrych ymlaen at weld y gwahaniaeth cadarnhaol y bydd yn ei wneud i drigolion, staff, cynghorwyr a phartneriaid ar hyd a lled Sir Ddinbych.

**Y Cynghorydd Julie Matthews**
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol
Cyngor Sir Ddinbych

## Cyngor sy’n hyderus yn ddigidol – darparu gwasanaethau digidol cynhwysol, diogel ac effeithlon sydd wedi'u cynllunio o gwmpas anghenion trigolion.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio technoleg, gwybodaeth ddibynadwy a ffyrdd modern o weithio i wneud gwasanaethau’n fwy syml i’w defnyddio, yn haws eu darparu ac i gyd-fynd ag anghenion ein cymunedau’n well.

Mae hyn yn golygu:

- Gwasanaethau sy’n syml, yn eglur ac yn hawdd eu defnyddio, waeth pa mor ddigidol hyderus yw pobl a heb ystyried y dull cyswllt maent yn ei ffafrio.
- Staff sydd ag offerynnau a systemau dibynadwy sy’n eu helpu i gydweithio a darparu gwasanaethau o safon.
- Penderfyniadau sydd wedi’u hategu gan wybodaeth a dealltwriaeth, sy’n galluogi gweithredu’n amserol ac yn gytbwys.
- Gwasanaethau digidol sy’n ddiogel, yn gynhwysol ac yn gefnogol i’n targedau ar gyfer yr hinsawdd a natur.
- Technoleg sy’n gweithio’n gyson ar draws y sefydliad, gan leihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd.

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae trawsnewid digidol yn ymwneud â chyflwyno technoleg newydd, ond mae hefyd yn golygu gwella profiadau bob dydd i drigolion a galluogi staff a chynghorwyr i weithio’n fwy effeithiol. Drwy symleiddio gwasanaethau, gwella mynediad at wybodaeth, sicrhau gwell diogelwch a chefnogi prosesau gwell i wneud penderfyniadau, gallwn ddarparu gwasanaethau mwy ymatebol a chynaliadwy sy’n canolbwyntio’n fwy ar drigolion.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Ddigidol i Gymru yn 2021, sy'n nodi ei gweledigaeth am safon gyson i wasanaethau digidol cyhoeddus. Mae'n cynnwys y 6 cenhadaeth isod.

### Cenhadaeth 1: Gwasanaethau Digidol

Darparu a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod yn cael eu dylunio ar sail anghenion y defnyddiwr a'u bod yn syml, diogel a chyfleus.

### Cenhadaeth 2: Cynhwysiant Digidol

Rhoi'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion.

### Cenhadaeth 3: Sgiliau Digidol

Creu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd.

### Cenhadaeth 4: Economi Ddigidol

Sbarduno ffyniant a chydnerthedd economaidd drwy groesawu a manteisio ar arloesedd digidol.

### Cenhadaeth 5: Cysylltedd Digidol

Seilwaith cyflym a dibynadwy i gynnal gwasanaethau.

### Cenhadaeth 6: Data a Chydweithredu

Caiff gwasanaethau eu gwella drwy gydweithio, a chaiff data a gwybodaeth eu defnyddio a'u rhannu.

Mae Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r amcanion hyn trwy wella sut mae'r Cyngor yn gweithio'n fewnol a gwella profiad trigolion o'n gwasanaethau'n allanol.

# EGWYDDORION DIGIDOL ALLWEDDOL I'R CYNGOR

Bydd y 4 egwyddor allweddol hyn yn llywio penderfyniadau digidol, buddsoddiadau a gwaith cyflawni ar draws y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **CANOLBWYNTIO AR Y CWSMER A CHYNLLUNIO I FOD YN GYNHWYSOL** | • Bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar gyfer anghenion trigolion a chymunedau, nid strwythurau sefydliadol.<br>• Digidol yn gyntaf, ond nid digidol yn unig; bydd gwasanaethau digidol yn cael eu creu i fod yn gynhwysol o'r cychwyn un.<br>• Bydd data a gwybodaeth yn cael eu rheoli'n gyfrifol i wella gwasanaethau, llywio penderfyniadau a chefnogi gwell canlyniadau i gwsmeriaid. |
| **2** | **SYML, DIOGEL A CHYNALIADWY** | • Dylai technoleg, prosesau a gwaith cynllunio gwasanaethau leihau dyblygu a chael gwared â chymhlethdod diangen.<br>• Bydd datrysiadau safonol sydd wedi'u profi'n cael eu mabwysiadu lle bo hynny'n ymarferol.<br>• Bydd diogelwch, preifatrwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd yn ganolog wrth gynllunio. |
| **3** | **UN CYNGOR YN CYDWEITHIO** | • Bydd datrysiadau digidol yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth gydlynol trwy gydweithio ar draws adrannau, partneriaid ac asiantaethau.<br>• Bydd platfformau, safonau a dulliau cyffredin yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n ymarferol i symleiddio darpariaeth, cefnogaeth a gwella parhaus.<br>• Bydd y Cyngor yn cydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus i rannu gwersi a ddysgwyd, gallu edd ac arloesedd. |
| **4** | **PROSESAU LLYWODRAETHU, BLAENORIAETHU A CHANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU** | • Bydd buddsoddiadau digidol yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a chanlyniadau i gwsmeriaid.<br>• Bydd newid digidol yn cael ei lywodraethu trwy atebolrwydd clir, blaenoriaethu a goruchwyliaeth.<br>• Bydd staff yn cael eu cefnogi trwy newid er mwyn cael yr effaith fwyaf o ran mabwysiadu, gwireddu manteision a gwella'n barhaus. |

# AMCANION STRATEGOL

Mae Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Ddinbych yn nodi sut y bydd technolegau digidol, gwybodaeth a ffyrdd modern o weithio'n helpu'r Cyngor i roi gwell canlyniadau i drigolion, gwella effeithlonrwydd a chefnogi gwytnwch sefydliadol hirdymor. Mae'r strategaeth wedi'i ffurfio o amgylch naw o amcanion cysylltiedig, ac mae'n sefydlu fframwaith clir ar gyfer trawsnewid digidol hirdymor — cefnogi arloesedd, gwella profiadau bob dydd a pharatoi'r Cyngor ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | MYNEDIAD DIGIDOL A GWASANAETHAU I GWSMERIAID | Mae gwneud gwasanaethau'n haws eu defnyddio ac yn fwy syml i ymdrin â nhw'n ganolog i'r strategaeth. Dylai trigolion allu ymwneud â'r Cyngor trwy ddulliau digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb heb ailadrodd, oedi na dryswch diangen. Dylai gwasanaethau deimlo'n gydlynol, yn hygyrch ac wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion bywyd go iawn. |
| 2 | CYNGOR DIGIDOL | Mae newid digidol llwyddiannus yn dibynnu ar bobl. Mae staff a chynghorwyr angen offer dibynadwy, arferion gweithio modern a hyder i ddefnyddio technoleg yn effeithiol er mwyn iddynt allu cydweithio'n fwy effeithiol, lleihau gwaith 'â llaw', a gwella darpariaeth gwasanaeth. |
| 3 | ISADEILEDD DIGIDOL | Platfformau modern, systemau cysylltiedig a thechnoleg fwy syml yw sylfaen gwasanaethau digidol. Bydd y Cyngor yn lleihau dyblygu, yn gwella integreiddio ac yn moderneiddio systemau craidd i wneud technoleg yn fwy dibynadwy a haws ei defnyddio. |
| 4 | DATA, DEALLTWRIAETH A PHERFFORMIAD | Mae penderfyniadau da'n dibynnu ar wybodaeth o le da. Bydd y Cyngor yn cryfhau sut mae data'n cael ei reoli, ei rannu a'i droi'n ddealltwriaeth ymarferol er mwyn i wasanaethau allu deall y galw, monitro perfformiad a gwella canlyniadau. |
| 5 | DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL AC AWTOMEIDDIO | Bydd awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn cael eu cyflwyno'n ofalus i leihau gwaith ailadroddus, gwella effeithlonrwydd a chefnogi gwell penderfyniadau lle maent yn cynnig gwell gwerth i drigolion a gwasanaethau. |
| 6 | DIOGELWCH DIGIDOL AC YMDDIRIEDAETH | Mae seiberddiogelwch cadarn yn hollbwysig i bobl ymddiried mewn gwasanaethau digidol. Bydd y Cyngor yn gwarchod systemau, data a gwasanaethau allweddol trwy dechnoleg ddiogel, cyfrifoldebau clir a ffyrdd cadarn o weithio. |
| 7 | CYNALIADWYEDD DIGIDOL | Mae'n rhaid i wasanaethau digidol ystyried eu heffaith ar yr hinsawdd a natur a'u cyfraniad at wytnwch yr hinsawdd. Mae newid digidol sy'n cefnogi pobl ac effeithlonrwydd yn ogystal â'r blaned yn bwysig. |
| 8 | CYNHWYSIANT DIGIDOL | Mae'n rhaid i wasanaethau digidol barhau i fod yn gynhwysol. Dylai trigolion allu cael cefnogaeth mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion nhw ac yn ystyried y safon fyw ddigidol fwyaf sylfaenol yn y sir. |
| 9 | CYFLAWNI DIGIDOL A LLYWODRAETHU | Mae trawsnewid digidol yn gofyn am arweinyddiaeth, blaenoriaethu ac atebolrwydd clir. Bydd y Cyngor yn cryfhau prosesau llywodraethu ac yn sicrhau bod buddsoddiadau mewn datblygiadau digidol yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac yn cael eu cyflawni gyda manteision mae modd eu mesur. |

# AMCAN 1 – MYNEDIAD DIGIDOL A GWASANAETHAU I GWSMERIAID

## Ei gwneud yn haws cael mynediad at wasanaethau

Dylai trigolion allu cysylltu â'r Cyngor yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw – boed hynny ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb – heb orfod ailadrodd gwybodaeth, gweithio'u ffordd drwy systemau cymhleth, na deall trefn fewnol y Cyngor.

Dylai gwasanaethau digidol deimlo'n syml, yn gysylltiedig ac yn hygyrch, gan ei gwneud yn haws i drigolion gael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae pobl yn aml angen mwy nag un gwasanaeth ar un waith, yn enwedig pan mae eu hamgylchiadau'n newid. Mae profiad digidol symlach, mwy cydlynol yn lleihau rhwystredigaeth, yn gwella mynediad, ac yn helpu trigolion i gael cefnogaeth yn gynt ac yn fwy cyson.

### Prif egwyddorion

- Gwasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch sefyllfaoedd bywyd go iawn yn hytrach na strwythurau mewnol y Cyngor.
- Profiadau cyson a pharhad o ran profiad ar draws adrannau fel nad yw trigolion yn gorfod dechrau o'r dechrau.
- Iaith glir a gwybodaeth hawdd ei deall.
- Digidol yn gyntaf, ond nid digidol yn unig, gan sicrhau bod dulliau eraill yn parhau i fod ar gael ac ystyried y safon fyw ddigidol fwyaf sylfaenol ar draws y sir.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Cyflwyno platfform digidol modern i drigolion allu eu gwasanaethu eu hunain ac ymwneud â Gwasanaethau'r Cyngor mewn un lle.
- Gweithio tuag at un cofnod i gwsmeriaid fel nad oes angen ailadrodd gwybodaeth.
- Gwella hygyrchedd trwy gynnwys mwy eglur, Cymraeg Clir / Plain English a dylunio'n bwrpasol ar gyfer defnyddwyr.
- Ehangu opsiynau hunanwasanaeth, digidol yn gyntaf ond nid digidol yn unig.
- Mapio a phrofi siwrnai'r cwsmer, a symleiddio siwrneiau gwasanaeth er mwyn gwneud y broses yn fwy cyflym ac yn haws.
- Cyflwyno systemau i gasglu adborth gan gwsmeriaid am eu profiad.

### Prif fanteision

- Un pwynt mynediad digidol clir a chyson  i wasanaethau'r Cyngor.
- Ymatebion cyflymach a diweddariadau mwy eglur am geisiadau ac ymholiadau.
- Llai o ddyblygu ffurflenni a gwybodaeth ac ailgysylltu.
- Mynediad mwy cyfleus at wasanaethau ar adeg sy'n hwylus i drigolion.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Trigolion yn cwblhau tasgau ar-lein yn sydyn ac yn hyderus.
- Llai o ailgysylltu gan fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol ar draws gwasanaethau.
- Mwy o fodlonrwydd â gwasanaethau a chyswllt y Cyngor.
- Trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, 'waeth pa ffordd maent yn cysylltu â'r Cyngor.
- Gwasanaethau'n haws ymdrin â nhw ac yn fwy cyson ar draws y sefydliad.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Gwasanaeth Tai a Chymunedau
- Pob gwasanaeth

# AMCAN 2 – CYNGOR DIGIDOL

## Galluogi ein pobl

Mae Sir Ddinbych Ddigidol yn cydnabod nad yw technoleg yn unig yn gwella gwasanaethau, ond mai pobl sydd. Mae'n rhaid i'n gweithlu a'n cynghorwyr fod â'r hyder, y sgiliau a'r adnoddau i ddefnyddio datrysiadau digidol yn effeithiol a gwella sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu o hyd.

## Pam mae hyn yn bwysig

Pan mae staff a chynghorwyr yn gallu defnyddio, deall ac ymddiried mewn adnoddau digidol, maent yn gallu gweithio'n fwy effeithiol a chanolbwyntio ar helpu trigolion yn hytrach na rheoli prosesau cymhleth.

### Prif egwyddorion

- Dysgu a chefnogaeth barhaus i staff o bob lefel, rôl a gallu, gan uwchsgilio ein staff a'n cynghorwyr ar gyfer y dyfodol.
- Arferion gweithio modern sy'n adlewyrchu newidiadau yn y galw am wasanaethau.
- Rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ar draws timau.
- Annog arloesedd, arbrofi a gwelliant parhaus.
- Cefnogi staff a chynghorwyr drwy newid gydag arweiniad ac arweinyddiaeth glir.
- Galluogi ein pobl i ddefnyddio platfformau cyfathrebu digidol.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Darparu llwybrau dysgu sgiliau digidol clir sy'n cyd-fynd â systemau newydd a ffyrdd newydd o weithio.
- Chwilio am gyfleoedd am gyllid allanol i gefnogi uwchsgilio digidol, gan weithio gyda phartneriaid ac awdurdodau lleol cyfagos.
- Gwella ffyrdd o weithio'n hyblyg ac o bell drwy ddyfeisiau, mynediad a phlatfformau cydweithio modern.
- Annog arloesedd trwy greu cyfleoedd i brofi a rhannu syniadau newydd.
- Penodi arloeswyr digidol ar draws y Cyngor sy'n gallu cefnogi cydweithwyr yn lleol.
- Gwneud datblygu sgiliau digidol yn rhan greiddiol o raglenni cynllunio'r gweithlu a newid sefydliadol.

### Prif fanteision

- Cydweithio haws rhwng timau, partneriaid a lleoliadau.
- Ystod o ddatrysiadau digidol ar gael ar gyfer yr holl staff sy'n berthnasol i'w gwaith.
- Gwell mynediad, hyder a gallu i ddefnyddio offerynnau digidol.
- Treulio llai o amser ar dasgau ailadroddus 'â llaw', a ffyrdd o osgoi hynny.
- Gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws y sefydliad.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Staff a chynghorwyr yn teimlo wedi'u cefnogi ac yn hyderus pan mae technoleg newydd yn cael ei chyflwyno.
- Timau'n cydweithio'n haws ar draws adrannau a gwasanaethau.
- Staff yn fwy bodlon a chynhyrchiol ac yn ymgysylltu'n well.
- Mwy o hyder i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.
- Staff a chynghorwyr yn defnyddio datrysiadau digidol yn ddyddiol lle bo hynny'n briodol.
- Llai o gamgymeriadau gan ddefnyddwyr.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Gwasanaeth Tai a Chymunedau

# AMCAN 3 – ISADEILEDD DIGIDOL

## Platfformau modern sy'n symleiddio gwaith

Dylai technoleg wneud tasgau bob dydd yn haws, nid yn fwy cymhleth. Drwy foderneiddio systemau craidd a gwella sut mae technoleg yn gweithio gyda'i gilydd, byddwn yn gwneud gwasanaethau'n fwy dibynadwy, yn fwy hwylus ac yn well am gefnogi staff a thrigolion.

Byddwn yn ymdrin â'n hystâd dechnoleg yn fwy syml a safonol, gan leihau dyblygu a sicrhau bod systemau craidd yn rhoi sylfaen gadarn a chynaliadwy i ddarparu gwasanaeth.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae hen systemau neu rai datgysylltiedig yn arafu gwasanaethau, cynyddu costau a chreu gwaith diangen. Pan nad yw systemau'n gweithio ynghyd, mae staff yn gorfod aildeipio data, gwneud pethau fwy nag unwaith a dibynnu ar ddulliau eraill. Mae platfformau modern, cysylltiedig yn cefnogi prosesau rhwyddach, rhannu data a gwasanaethau mwy effeithlon.

### Prif egwyddorion

- Symleiddio systemau lle bo modd, gan eu crynhoi ar blatfformau allweddol a gwneud y defnydd gorau o'r rheiny.
- Lleihau dyblygu drwy'r ystâd dechnoleg, gan gynnwys dyblygu data a rhaglenni.
- Sicrhau bod systemau'n gweithio gyda'i gilydd trwy safonau cyffredin ac integreiddio.
- Gwneud penderfyniadau am dechnoleg yn unol â saernïaeth prosesau busnes glir.
- Mabwysiadu datrysiadau hyblyg y gellir eu cyflwyno ar raddfa fwy, a rhai sy'n darparu ar gyfer anghenion sy'n newid.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Uwchraddio systemau craidd i wella dibynadwyedd a pherfformiad.
- Cael gwared â hen systemau a systemau dyblyg trwy ad-drefnu.
- Gwella sut mae systemau'n cysylltu ac yn rhannu data'n ddiogel.
- Ehangu platfformau hwylus i ddefnyddwyr sy'n cefnogi gwella gwasanaethau.
- Buddsoddi mewn isadeiledd i gyd-fynd â blaenoriaethau gwasanaeth, digidol a chorfforaethol ehangach (gan gynnwys carbon a natur).

### Prif fanteision

- Llai o waith gweinyddu 'â llaw' ar draws gwasanaethau.
- Prosesu'n gyflymach a darparu gwasanaethau'n fwy dibynadwy.
- Integreiddio gwell rhwng systemau ac adrannau ac alinio â blaenoriaethau ehangach CSDd.
- Llai o gostau trwy gael gwared ag offerynnau dyblyg neu ddiangen.
- Systemau allweddol yn fwy gwydn ac ar gael ar fwy o adegau.
- Sylfeini cryfach ar gyfer gwasanaethau digidol hunanwasanaeth a "dweud wrthym unwaith".

### Sut beth yw llwyddiant?

- Staff yn treulio llai o amser yn ymdrin â systemau ar wahân.
- Prosesau'n gyflymach, yn symlach ac yn fwy dibynadwy.
- Llai o gamgymeriadau o ganlyniad i deipio data neu ddyblygu.
- Systemau'n haws eu defnyddio ac yn fwy cysylltiedig.
- Llai o gostau a mwy o hyder gan staff a chynghorwyr mewn offerynnau digidol.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau

# AMCAN 4 – DATA, DEALLTWRIAETH A PHERFFORMIAD

## Defnyddio data i wella canlyniadau

Mae gwybodaeth dda'n helpu'r Cyngor i ddeall perfformiad gwasanaethau, anghenion trigolion a lle mae angen gwella. Trwy droi data'n wybodaeth glir, ymarferol a chysylltu setiau data perthnasol, gallwn dargedu adnoddau i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

## Pam mae hyn yn bwysig

Pan mae penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth gywir a dibynadwy, gallwn gynllunio gwasanaethau'n well, dyrannu adnoddau'n deg ac ymateb yn gyflymach i anghenion y gymuned. Mae gwell dealltwriaeth yn ein helpu i ymyrryd ynghynt, gan leihau costau hirdymor a gwella canlyniadau i drigolion. Mae data clir, dibynadwy hefyd yn gwella tryloywder a hyder mewn prosesau penderfynu.

### Prif egwyddorion

- Data a gwybodaeth yn gywir, cyson, dibynadwy a hawdd eu deall.
- Penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Cynnal ansawdd data drwy gydol oes y data hwnnw, gan wybod bod y ddealltwriaeth sy'n deillio ohono'n dibynnu ar ei safon yn y lle cyntaf.
- Awtomeiddio a hunanwasanaeth yn cael eu cynnwys wrth gynllunio prosesau.
- Diogelwch a defnydd moesegol o ddata'n sail i bob gweithgarwch.
- Data'n cael ei gasglu unwaith, at ddiben clir, a'i ailddefnyddio, ei gadw a'i rannu'n briodol.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Asesu aeddfedrwydd data, gan gynnwys ansawdd, rolau, cyfrifoldebau, ac offerynnau a systemau cyfredol a rhai'r dyfodol.
- Diffinio perchnogion data busnes a stiwardiaid data gwasanaeth, wedi'u cefnogi gan gymuned ymarfer.
- Datblygu dangosfyrddau hygyrch ar gyfer arweinwyr a thimau, gan wneud adroddiadau'n awtomataidd lle bo modd.
- Creu un olwg ddibynadwy ar endidau allweddol, fel unigolion, teuluoedd ac eiddo, a gwella rhannu data i leihau dyblygu.
- Darogan galw, cynllunio gwasanaethau a gwerthuso ymyraethau trwy ddadansoddeg.
- Darparu offerynnau a systemau sy'n cyd-fynd â'n saernïaeth darged.

### Prif fanteision

- Dangosfyrddau clir yn dangos perfformiad ac anghenion gwella.
- Un olwg ddibynadwy ar wybodaeth allweddol, gan leihau dyblygu.
- Dealltwriaeth o batrymau yn y dyfodol i gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal.
- Treulio llai o amser ar adrodd 'â llaw' trwy awtomeiddio a hunanwasanaeth.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Deall rolau a chyfrifoldebau data a gwybodaeth.
- Rheolwyr yn gweld perfformiad gwasanaeth mewn fformat hwylus y mae modd ei addasu.
- Staff yn deall sut mae data'n cefnogi gwell gwasanaethau lleol, gan gynyddu stiwardiaeth a chywirdeb data.
- Staff yn treulio llai o amser yn llunio adroddiadau.
- Penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth gan ddefnyddio data dibynadwy.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl
- Pob maes gwasanaeth

# AMCAN 5 – DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL AC AWTOMEIDDIO

## Defnyddio awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol

Gall awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial wella effeithlonrwydd, lleihau gwaith ailadroddus a chefnogi gwell penderfyniadau. O'u defnyddio'n ofalus, maent yn helpu staff i ganolbwyntio mwy o amser ar drigolion a gwella sut mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion sy'n newid.

Byddwn yn defnyddio awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial mewn ffordd foesegol ac ymarferol sydd wedi'i rheoli, gan ganolbwyntio ar feysydd lle maent yn cynnig gwerth amlwg, gan gofio effaith gymdeithasol ac amgylcheddol mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae llawer o brosesau'r Cyngor yn dal i ddibynnu ar waith ailadroddus a wneir 'â llaw', sy'n dwyn amser oddi wrth waith o fwy o werth. Gall awtomeiddio ddileu ymdrech diangen, a gall deallusrwydd artiffisial helpu i amlygu patrymau, cryfhau penderfynu a gwella ymatebolrwydd gwasanaethau a chanlyniadau i drigolion bregus. Mae'n rhaid monitro'r offerynnau hyn yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel, tryloyw a dibynadwy.

### Prif egwyddorion

- Defnyddio awtomeiddio lle mae'n creu gwerth amlwg i wasanaeth.
- Defnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel, moesegol a thryloyw.
- Cynnal goruchwyliaeth gan bobl a dull clir o gael person yn rhan o benderfyniadau pwysig.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau ymarferol yn hytrach na thechnoleg er mwyn technoleg.
- Alinio awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial â blaenoriaethau gwasanaeth, manteision i drigolion a chanlyniadau mesuradwy.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Cyflwyno offerynnau awtomeiddio i symleiddio tasgau ailadroddus a lleihau ymdrechion 'â llaw' lle bo modd a lle bo'n gost-effeithiol.
- Blaenoriaethu prosesau lle mae awtomeiddio'n cynnig manteision clir o ran effeithlonrwydd.
- Ystyried deallusrwydd artiffisial mewn achosion defnydd dethol, gan werthuso eu heffaith o fewn ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.
- Sicrhau bod staff a chynghorwyr yn deall sut mae deallusrwydd artiffisial ac offerynnau awtomeiddio'n cael eu defnyddio.
- Gweithredu prosesau llywodraethu a mesurau diogelu i'w defnyddio'n ddiogel a chyfrifol.

### Prif fanteision

- Treulio llai ar dasgau ailadroddus.
- Ymdrin â phrosesau a thrafodion arferol yn gyflymach.
- Gwell cynhyrchiant ar draws gwasanaethau.
- Defnydd gwell o amser staff ar gyfer gwaith cymhleth neu gyda thrigolion.
- Adnabod tueddiadau, risgiau a chyfleoedd yn gynharach.
- Arloesi cyfrifol sy'n cefnogi gwella gwasanaethau.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Tasgau rheolaidd yn cael eu cwblhau'n gyflymach ac yn fwy cyson.
- Staff yn treulio mwy o amser yn cefnogi trigolion a llai ar weithgareddau ailadroddus.
- Awtomeiddio'n lleihau oedi ac yn gwella ymatebolrwydd gwasanaethau.
- Deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sydd wedi'u llywodraethu'n glir gyda hyder ynddynt, gan ddeall y goblygiadau.
- Offerynnau newydd yn cefnogi gwelliannau ymarferol heb ychwanegu cymhlethdod.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Pob maes gwasanaeth

# AMCAN 6 – DIOGELWCH DIGIDOL AC YMDDIRIEDAETH

## Gwasanaethau digidol diogel i ymddiried ynddynt

Wrth i wasanaethau digidol ehangu, mae gwarchod gwybodaeth, systemau a gwasanaethau'n dod yn fwyfwy pwysig. Mae'n rhaid i drigolion, staff a chynghorwyr fod yn hyderus bod gwasanaethau digidol yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn gadarn.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae'r Cyngor yn dal gwybodaeth sensitif ac yn darparu gwasanaethau allweddol mae trigolion yn dibynnu arnynt bob dydd. Mae seiberddiogelwch cryf, rheolaethau clir a defnydd cyfrifol o dechnoleg yn helpu i warchod data, sicrhau parhad gwasanaeth a meithrin ymddiriedaeth wrth i wasanaethau digidol barhau i ddatblygu, heb beryglu na rhwystro mynediad at systemau a gwybodaeth.

### Prif egwyddorion

- Diogelwch yn cael ei gynllunio i mewn i systemau a gwasanaethau o'r dechrau.
- Atebolrwydd clir ar gyfer diogelwch gwybodaeth ar draws y sefydliad.
- Defnyddio technoleg a data'n foesegol a chyfrifol.
- Systemau cadarn sy'n cefnogi parhad gwasanaeth.
- Ymwybyddiaeth a chyd-gyfrifoldeb ar draws y gweithlu.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Cryfhau rheolyddion seiberddiogelwch a monitro ar draws y Cyngor.
- Gwella ymwybyddiaeth staff a chynghorwyr a darparu hyfforddiant diogelwch digidol.
- Sicrhau bod systemau newydd yn bodloni safonau diogelwch priodol.
- Gwarchod gwasanaethau hanfodol trwy gynllunio gwytnwch a threfniadau adfer.
- Mabwysiadu technolegau newydd mewn ffordd ddiogel a chymesur, wedi'i rheoli.

### Prif fanteision

- Gwarchodaeth gref i wybodaeth bersonol a sensitif.
- Systemau a gwasanaethau mwy gwydn.
- Mwy o hyder mewn gwasanaethau digidol a thrafodion ar-lein.
- Llai o risg o amhariadau oherwydd ymosodiadau seiber.
- Mabwysiadu technolegau newydd yn ddiogel, gan gynnwys awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Trigolion â ffydd yn y ffordd mae'r Cyngor yn trin eu gwybodaeth.
- Staff a chynghorwyr yn deall eu rôl nhw i warchod systemau a data.
- Gwasanaethau'n wydn yn ystod amhariadau.
- Risgiau diogelwch yn cael eu hadnabod a'u rheoli'n rhagweithiol.
- Technoleg newydd yn cael ei chyflwyno'n ddiogel ac yn gyfrifol.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Pob gwasanaeth

## Gwasanaethau digidol cynaliadwy

Mae’n rhaid i wasanaethau digidol weithio i bawb, gan gynnwys y blaned. Dylai dewisiadau digidol gefnogi defnyddio adnoddau’n effeithlon a chyfrannu’n gadarnhaol at ein targedau i leihau allyriadau, adfer natur a gwytnwch yr hinsawdd.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae’r Cyngor wedi datgan argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol fel ymateb i’r effaith rydym ni’n ei gweld ar yr hinsawdd a natur, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Gall technoleg helpu i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, ond gall hefyd gyfrannu ato. Bydd gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gyfrannu’n gadarnhaol at ein hamcanion amgylcheddol a chynhyrchu gwasanaethau a datrysiadau digidol sydd eu hangen yn unig yn bwysig i sicrhau cyfrifoldeb amgylcheddol mewn byd cynyddol ddigidol.

### Prif egwyddorion

- Arferion digidol cynaliadwy sy’n cefnogi amcanion amgylcheddol ehangach.
- Cynhyrchu’r gwasanaethau digidol sydd eu hangen yn unig.
- Dealltwriaeth o risgiau a chyfleoedd o ran cynaliadwyedd newid digidol, gan weithredu ar y rheiny a’u monitro.
- Ystyried ein dylanwad uniongyrchol ar allyriadau, yn ogystal ag ein dylanwad anuniongyrchol drwy’r gadwyn gyflenwi a pherthnasoedd â darparwyr.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Hyrwyddo gweithio di-bapur a darparu gwasanaethau o bell lle bo hynny’n briodol.
- Edrych ar dechnolegau doeth sy’n cefnogi cynaliadwyedd a darpariaeth gwasanaeth effeithlon.
- Ystyried datrysiadau digidol sy’n lleihau gwastraff.
- Deall effaith amgylcheddol penderfyniadau digidol yn well.
- Sicrhau ein bod yn osgoi ‘digidol er mwyn digidol’, gan flaenoriaethu mentrau digidol sy’n cynnig gwerth sefydliadol.

### Prif fanteision

- Gwasanaeth sydd wedi’i alluogi’n ddigidol a newidiadau i ffyrdd o weithio sy’n lleihau allyriadau a’r effaith ar natur a/neu’n gwella gwytnwch.
- Llai o effaith amgylcheddol trwy fwy o ddigideiddio, sy’n lleihau’r defnydd o bapur a’r angen am deithio.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Mentrau digidol yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol ac yn lleihau gwastraff.
- Defnyddio datrysiadau digidol yn bwrpasol, gan ystyried effaith o ran carbon a natur a darparu rheolyddion corfforaethol ar eu defnyddio lle bo angen.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Pob gwasanaeth

# AMCAN 8 – CYNHWYSIANT DIGIDOL

## Gwasanaethau digidol cynhwysol a chynaliadwy

Mae'n rhaid i wasanaethau digidol weithio i bawb. Wrth i ni foderneiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau, byddwn yn sicrhau bod trigolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn cael cymorth.

## Pam mae hyn yn bwysig

Nid oes gan bawb yr un mynediad at dechnoleg, na chysylltiad, hyder digidol na gallu i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn annibynnol a diogel. Mae'n rhaid i drawsnewid digidol felly barhau i fod yn gynhwysol, gan gynllunio gwasanaethau i gefnogi gwahanol anghenion ac amgylchiadau.

### Prif egwyddorion

- Cynllunio cynhwysol sy'n rhoi ystyriaeth i wahanol anghenion a gallu.
- Hygyrch a chynhwysol i'n holl drigolion, gan gynnwys rhai sydd angen cymorth ychwanegol.
- Cyfathrebu clir a chynnwys hawdd ei ddeall.
- Gwasanaethau digidol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi mynediad ar-lein a mynediad â chymorth lle bo angen.
- Bod yn ymwybodol o'r safon fyw ddigidol ar draws ein sir.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Darparu cymorth digidol ynghyd â chynllunio gwasanaethau i fod yn hygyrch.
- Sicrhau bod dulliau cysylltu amgen yn parhau i fod ar gael lle bo angen.
- Gweithio gyda thenantiaid ein tai i gefnogi eu sgiliau digidol nhw.
- Cefnogi ein hymwelwyr yn ein siopau un alwad i allu defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn ddigidol.
- Ceisio cyfleoedd am gyllid allanol i gefnogi cynhwysiant digidol, gan weithio gyda phartneriaid.
- Rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor ar yr hyn sydd ar gael i ddefnyddwyr ar ddyfeisiau, cysylltedd, sgiliau a chyngor am ddiogelwch ar-lein.

### Prif fanteision

- Gwasanaethau'n hygyrch i fwy o drigolion, waeth pa mor ddigidol hyderus ydynt a beth bynnag eu hamgylchiadau personol.
- Mwy o hyder bod gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fod yn deg a chynhwysol.
- Gwasanaethau digidol sy'n hawdd eu defnyddio ac ar gael drwy wahanol sianeli.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Mwy o drigolion yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor mewn ffordd sy'n gweddu iddyn nhw.
- Trigolion yn wynebu llai o rwystrau wrth geisio cael cymorth.
- Staff a chynghorwyr yn deall sut i gefnogi mynediad digidol cynhwysol.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaeth Tai a Chymunedau
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl

# AMCAN 9 – CYFLAWNI A LLYWODRAETHU

## Cyflawni newid digidol yn effeithiol

Mae arweinyddiaeth gref, trefniadau llywodraethu clir a darpariaeth strwythuredig yn hollbwysig i sicrhau bod buddsoddiadau digidol yn arwain at welliannau mesuradwy, go iawn. Mae trawsnewid digidol yn gofyn am fwy na thechnoleg – mae angen cydlynu, blaenoriaethu ac atebolrwydd ar draws y sefydliad.

## Pam mae hyn yn bwysig

Heb flaenoriaethau clir, perchnogaeth wedi'i diffinio, a goruchwyliaeth gyson, gall mentrau digidol droi'n dameidiog neu'n or-gymhleth, neu wyro oddi wrth amcanion y Cyngor. Mae trefniadau llywodraethu cryf yn sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar y pethau cywir, bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a bod manteision yn cael eu gwireddu.

### Prif egwyddorion

- Arweinyddiaeth, cefnogaeth a pherchnogaeth glir ar bob cam.
- Dulliau cyflawni strwythuredig a chymesur.
- Cydweithio cryf ar draws adrannau a gwasanaethau.
- Cynllunio, adrodd a monitro perfformiad yn dryloyw.
- Manteision wedi'u diffinio'n glir ar y dechrau ac yn cael eu holrhain trwy gydol y ddarpariaeth.
- Penderfyniadau wedi'u llywio gan flaenoriaethau strategol a'r capasiti sydd ar gael.

### Erbyn 2031, byddwn yn

- Cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer rhaglenni a buddsoddiadau digidol.
- Cyflwyno prosesau blaenoriaethu mwy eglur i ganolbwyntio ar y mentrau sy'n rhoi'r manteision mwyaf a deall effaith, risg a mesurau lliniaru'n glir.
- Darparu arweiniad cyson a safonau i gynllunio a chyflawni prosiectau.
- Gwella amlygrwydd perfformiad, risgiau a chanlyniadau rhaglenni.
- Cefnogi cydweithio rhwng gwasanaethau i wneud y mwyaf o ddatrysiadau cyffredin.
- Alinio mentrau digidol yn uniongyrchol â'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

### Prif fanteision

- Atebolrwydd clir ar gyfer rhaglenni a phrosiectau digidol.
- Gwell cydlynu a llai o ddyblygu ar draws gwasanaethau.
- Cyflawni mentrau newid yn fwy cyson a dibynadwy.
- Buddsoddiadau digidol yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mwy o amlygrwydd i gostau, risgiau a manteision disgwyliedig.
- Mwy o hyder y bydd mentrau digidol yn rhoi gwerth go iawn.

### Sut beth yw llwyddiant?

- Prosiectau digidol yn gwneud gwelliannau mesuradwy i ansawdd, effeithlonrwydd a chanlyniadau gwasanaethau.
- Staff a chynghorwyr yn deall sut mae mentrau digidol yn cyfrannu at amcanion ehangach y Cyngor.
- Cynnydd, risgiau, manteision ac anfanteision wedi'u hadrodd a'u deall yn glir, ac olrhain unrhyw fesurau lliniaru.
- Penderfyniadau buddsoddi'n dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Mwy o hyder sefydliadol i gyflawni newid digidol.

**Partneriaid Cyflawni Meysydd Gwasanaeth**

- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

## Sut y lluniwyd y strategaeth hon

Lluniwyd y strategaeth hon yn ystod 2025 a 2026. Defnyddiwyd y canlynol yn wybodaeth ar gyfer y strategaeth.

- Bu i staff a chynghorwyr lenwi arolwg TG i roi gwybod am brofiadau presennol, blaenoriaethau a chyfleoedd i wella.
- Cynhaliwyd arolwg gofynion digidol a gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ddeall anghenion gwasanaeth, uchelgeisiau a blaenoriaethau strategol.
- Gwnaed gwaith meincnodi perfformiad gwasanaethau ac ariannol i gymharu gwasanaeth TG y Cyngor â sefydliadau cyffelyb.
- Cynhaliwyd asesiad aeddfedrwydd ITIL i asesu gallu rheoli gwasanaethau presennol a phennu blaenoriaethau gwella.
- Comisiynu prosiect ac adolygu trefniadau llywodraethu.
- Adolygwyd saernïaeth dechnoleg bresennol y Cyngor yn ôl safonau'r sector ac amcanion strategol, a oedd yn llywio gwaith datblygu saernïaeth darged a chynllun ar gyfer technoleg.
- Dadansoddwyd y darlun o ran gallu TG presennol i weld pa allu sefydliadol, technegol a chyflawni oedd ei angen er mwyn bodloni gofynion digidol y Cyngor at y dyfodol.

## Dogfennau technegol sy'n cefnogi cyflawni'r strategaeth hon

Mae'r Strategaeth Ddigidol hon wedi'i hategu gan Gynllun Strategol ar wahân, sy'n nodi'n fanylach sut y bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni dros amser. Mae'r ddogfen ategol yn cynnwys:

- Cyfeiriad y gwasanaeth TG a digidol, sy'n datblygu a newid.
- Trefniadau llywodraethu i oruchwylio'r gwaith cyflawni.
- Dangosyddion perfformiad allweddol i fesur cynnydd a chanlyniadau.
- Prosiectau allweddol i gyflawni amcanion y Strategaeth Ddigidol a'i chamau a'i pherchnogaeth.

## Monitro ac Adolygu

Bydd gwaith cyflawni'r strategaeth yn cael ei fonitro'n barhaus gan y Prif Swyddog Digidol a Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau, gyda:

- Prosiectau blaenoriaeth a mentrau newid.
- Darpar amcangyfrifon buddsoddi.

Bydd diweddariadau ar gynnydd yn cael eu darparu bob blwyddyn i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet.

Bydd cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i fonitro gwaith cyflawni a'r canlyniadau, ac adroddiad ar gynnydd trwy System Rheoli Perfformiad y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn.

Er bod y strategaeth hon yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2031, caiff ei hadolygu'n ffurfiol yn ystod y drydedd flwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, yn adlewyrchu cynnydd o ran cyflawni, ac yn ymateb i arferion, cyfleoedd a thechnolegau newydd ar draws y sector.

Bydd dogfen ategol y Cynllun Strategol hefyd yn cael ei hadolygu'n ffurfiol yn ystod y drydedd flwyddyn.

## Cyllid a Buddsoddi

Bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar fod â digon o gyllid ac adnoddau a blaenoriaethu priodol. Bydd cyllidebau gwasanaeth a chronfeydd wrth gefn presennol yn cyfrannu at gyflawni elfennau o'r strategaeth pan fo modd. Mae hyn yn cynnwys cyllidebau corfforaethol ar gyfer mentrau ar draws y gorfforaeth gyfan ac yn cymryd y bydd prosiectau busnes o fewn gwasanaethau'n cael eu hariannu gan y gwasanaethau hynny.

Bydd buddsoddi'n ychwanegol yn cael ei ystyried lle bo angen er mwyn helpu i gyflawni uchelgeisiau digidol y Cyngor. Caiff hyn ei gyflwyno drwy broses gosod cyllideb y Cyngor ar yr adeg briodol. Lle mae angen buddsoddiad cyfalaf, bydd achosion busnes llawn yn cael eu datblygu a'u hystyried drwy'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys yr angen i holl benderfyniadau'r Cyngor roi ystyriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol.